**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1351
Ein cyf/Our ref EM/01912/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

7 Awst 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf 2023 ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch sicrhau bod proses sgrinio'r galon ar gael i bob person ifanc 11-35 oed sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon.

Mae'r mater hwn wedi'i godi gan y Pwyllgor Deisebau o'r blaen, a'r un yw'r cyngor. Yn gyffredinol, gall rhaglenni sgrinio poblogaeth achub bywydau drwy adnabod risg gynnar, ond gallant hefyd wneud niwed drwy nodi ffactorau risg na fyddai byth yn datblygu fel arall yn gyflwr difrifol neu'n gymhlethdod. Gall rhaglenni sgrinio gael canlyniadau negyddol anghywir, felly nid ydynt yn gwarantu amddiffyniad. At hynny, nid yw cael canlyniad risg-isel yn atal person rhag datblygu'r cyflwr yn ddiweddarach. Dim ond pan fo tystiolaeth gadarn ac o safon uchel, sy'n cadarnhau y byddai'r profion sgrinio yn sicrhau mwy o ddaioni na drwg, y dylid rhaglenni sgrinio poblogaeth.

Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UK NSC) yn cynghori Gweinidogion ym mhedair gwlad y DU ynghylch pob agwedd ar sgrinio poblogaeth. Mae'n dod â thrylwyredd academaidd ac awdurdod i'r hyn sy'n faes hynod gymhleth ac mae'n arweinydd byd-eang yn ei faes. Mae sgrinio poblogaeth gyfan heb broses ddethol, i atal marwolaeth gardiaidd sydyn (SCD) ymhlith pobl 12 i 39 oed, wedi cael ei ystyried gan UK NSC ac nid yw'n cael ei argymell. Nid yw'r argymhelliad hwn wedi newid.

Daeth UK NSC i'r casgliad bod y niwed o sgrinio poblogaeth gyfan ar gyfer SCD yn gorbwyso'r manteision ar hyn o bryd. Mae ansicrwydd ynghylch manteision cyffredinol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

adnabod pobl â ffactorau risg, nid yw'r profion presennol yn ddigon dibynadwy (byddai llawer o bobl yn cael eu methu ac yn cael tawelwch meddwl di-sail, a byddai llawer yn cael canlyniadau positif anghywir) ac ar hyn o bryd nid oes triniaeth gytunedig ar gyfer rhywun y nodwyd ei fod yn wynebu risg. Os nodir yn anghywir bod rhywun yn wynebu risg, gallai ddechrau pryderu am ei weithgarwch corfforol a rhoi'r gorau i ymarfer corff yn rheolaidd neu gael ei atal rhag cymryd rhan mewn chwaraeon, a allai gael effaith negyddol ar ei iechyd cyffredinol. Gallai hefyd effeithio ar allu rhywun i gael yswiriant bywyd. Mae'r dystiolaeth wedi cael ei hadolygu'n gynhwysfawr a gwelir isod ddolen at adolygiad ac argymhelliad NSC y DU: [https://view-health-screening-recommendations.service.gov.uk/sudden-cardiac-death/](https://view-health-screening-recommendations.service.gov.uk/sudden-cardiac-death/).

O ystyried nad yw UK NSC yn argymell sgrinio poblogaeth gyfan ar gyfer SCD yn achos pobl 12 i 39 oed oherwydd anghywirdeb profion cyfredol, ni all Llywodraeth Cymru gyflwyno sgrinio i bawb yn y grŵp oedran hwn. Mae UK NSC yn adolygu ei holl safbwyntiau polisi yn rheolaidd ac fel Llywodraeth byddem yn ystyried ein safbwynt pe bai'r rhain yn newid.

Rwy'n llwyr gefnogi'r angen i fynd i'r afael ag achosion o SCD y gellir eu hatal; fodd bynnag, mae cydbwysedd i'w daro wrth ddarparu gwybodaeth iechyd i'r cyhoedd er mwyn sicrhau cymesuredd a hygyrchedd yn y negeseuon sy'n cael eu cyflwyno, heb greu pryder diangen. Ar lefel poblogaeth, mae'n fuddiol peidio â gwneud dim byd a fydd yn golygu bod pobl ifanc yn gwneud llai o ymarfer cardiofasgwlaidd – mae manteision hynny yn hysbys iawn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cardiaidd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r trydydd sector i ddatblygu'r Cynllun ar gyfer Ataliad y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017. Y nod yw cynyddu'r nifer sy'n goroesi o ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty drwy wneud y gorau o'r "gadwyn oroesi".

Sefydlwyd partneriaeth Achub Bywyd Cymru gennym ym mis Ionawr 2019 i ddod â holl wahanol ddarnau’r jig-so at ei gilydd o ran annog y cyhoedd i gymryd rhan mewn camau gweithredu os byddant yn dod ar draws ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services